# <u>Pecyn Gwybodaeth Llysgenhadon 2024</u>























## Cynnwys


1. Cytundeb (Er Gwybodaeth)
2. Swydd Ddisgrifiad
3. Cyfryngau Cymdeithasol, Blogio a chreu cynnwys
4. Monitro rôl a gwaith llysgenhadon
5. Digwyddiadau a dyddiadau pwysig
6. Costau
7. Cyhoeddusrwydd a Lluniau

# 1. Cytundeb (Copi er gwybodaeth)

**Darparu Gwasanaethau i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol mewn perthynas â Gwaith Llysgennad**

Hoffwn eich gwahodd i ddarparu gwasanaeth i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol fel y nodir isod. Ar sail llawrydd y byddwch yn darparu'r gwasanaeth hwn i ni.

Disgwylir i'r gwasanaethau a ddisgrifir yn y ddogfen hon gael eu darparu gennych rhwng 1 Ionawr 2024 a 31 Rhagfyr 2024 (gyda'r posibilrwydd o ehangu'r cyfnod).

**Ffioedd**

Bydd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn talu ffi o £50 bob tymor i'r unigolyn ym mis Ebrill, Gorffennaf, Hydref a Rhagfyr. A hynny am gyflawni tasgau penodol yn ystod y flwyddyn.

Bydd hefyd ffi o £84 y diwrnod neu £42 am hyd at hanner diwrnod yn cael ei dalu am ddarparu gwasanaethau penodol eraill inni, megis gweithio ar ein stondin yn yr Eisteddfod Genedlaethol (neu wyliau eraill). Mae diwrnod o waith yn cyfateb i 7 awr o waith a hanner diwrnod yn cyfateb â 3.5 awr o waith, yn ogystal â chostau teithio yn unol â chyfraddau arferol y Coleg.

Os byddwch yn darparu'r gwasanaethau hyn inni, byddwn yn darparu ffurflenni perthnasol er mwyn cyflwyno gwybodaeth i'r Coleg am y nifer o ddyddiau a'r treuliau ac yn talu ar dderbyn anfoneb gennych.

**Darparu gwasanaethau fel llysgennad**

Gofynnir i chi ddarparu gwasanaeth fel disgrifir yn y pecyn i'r Coleg ar gyfer cyflawni gofynion mewn perthynas â'r gwaith fel llysgennad.

**Eiddo'r Coleg**

Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cymryd y bydd yr unigolyn yn derbyn cyfarwyddiadau am y gwaith o dan y ddealltwriaeth fod deunydd, pan gaiff ei gynhyrchu, yn eiddo i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cadw'r hawl i atgynhyrchu cynnwys unrhyw waith yn gyfan gwbl neu yn rhannol heb briodoli'r cynnwys a gaiff ei atgynhyrchu i'r unigolyn priodol. Y mae hefyd yn dilyn fod hawlfraint unrhyw waith yn eiddo i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

**Statws eich gwasanaethau**

Datgenir eich bod yn berson hunangyflogedig heb hawl i unrhyw bensiwn, bonws na chilfanteision eraill oddi wrth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Cytunir y byddwch felly yn gyfrifol am unrhyw ofynion treth incwm, cyfraniadau yswiriant cenedlaethol a chyfraniadau tebyg eraill sy'n gysylltiedig â'r ffioedd.

**Indemniad treth**

Drwy hyn byddwch yn atebol ac yn cytuno i barhau yn atebol am unrhyw geisiadau am dreth incwm neu gyfraniadau yswiriant cenedlaethol a wneir i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol gan yr awdurdodau perthnasol mewn cysylltiad â'r gwasanaethau.

**Hawl i ddefnyddio eilydd**

Os oes amgylchiadau yn codi ble yr ydych wedi derbyn cais i berfformio eich gwasanaethau fel llysgennad inni, ond yr ydych yn methu a gwneud hynny am ba bynnag reswm, cyn belled ag y gallwch ein bodloni fod eilydd ichi yn gallu cyflawni eich gwaith yn eich lle trwy wirio ei fod ef / hi yn gyfarwydd hefo'r pecyn Llysgenhadon, ac yn gallu cyflawni'r gwasanaethau disgwyliedig, yna gall yr eilydd hwnnw berfformio'r gwasanaethau yn eich lle, o dro i dro.

Os byddwch yn defnyddio eilydd ar gyfer unrhyw wasanaeth yr oedd disgwyl ichi ei gyflawni, byddwch yn gadael i'r Coleg wybod pwy yw'r eilydd hwnnw, ac yn gwneud trefniadau i ofalu fod unrhyw daliad dyladwy iddo / iddi o unrhyw ffioedd yn cael ei wneud. Os na fyddwch yn gofalu am hyn, cadw'r Coleg yr hawl i ddod a'r cytundeb i derfyn heb rybudd pellach.

**Terfyn y cytundeb**

Bydd y cytundeb hwn yn dod i ben yn awtomatig ar ddiwedd y cyfnod a nodir uchod, onid ei terfynir yn gynnar, a heb rybudd ar sail tramgwydd o'r gofynion arnoch o'ch tu chi.

# 2. Swydd Ddisgrifiad

**Swydd Ddisgrifiad Llysgennad Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol**

Rydym yn chwilio am fyfyrwyr brwdfrydig boed yn Gymraeg iaith gyntaf neu ail iaith i rannu eu profiadau mewn prifysgolion ar draws Cymru gyfan, o'r astudio a phwysigrwydd y Gymraeg, i'r cymdeithasu! A cheisio denu mwy i astudio yng Nghymru!

Rydym eisiau eich cefnogi chi er mwyn datblygu sgiliau gwerthfawr i chi all fod o fudd wrth chwilio am waith yn y dyfodol, yn ogystal â chael y cyfle i rannu eich gwahanol brofiadau, ar ein gwefan ac ar y cyfryngau cymdeithasol.

Byddwch yn rhan fawr o'n digwyddiadau marchnata a hyrwyddo rhwng Ionawr a Rhagfyr 2024 (gyda'r posibilrwydd o ehangu'r cyfnod). Yn ogystal â chynrychioli'r Coleg o fewn eich prifysgol.

Mae bod yn llysgennad a chynrychioli llais myfyrwyr Cymru, yn rôl bwysig a gwerthfawr, a gallai roi boddhad mawr wrth gynorthwyo darpar fyfyrwyr i wneud penderfyniadau pwysig ynglŷn â chyfrwng iaith eu hastudiaethau addysg uwch.

Mae'r Coleg Cymraeg wedi ymrwymo i egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth ac felly'n annog ymgeiswyr o unrhyw ryw, oedran, anabledd, cefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, cyfeiriadedd rhywiol a chrefydd i ymgeisio ar gyfer y rôl o fod yn llysgennad.

**Cyfnod gwaith**

1 Ionawr 2024 – 31 Rhagfyr 2024

**Cynnwys gwaith:**

- Rydym yn annog ein llysgenhadon i fod yn greadigol ac yn pwysleisio bod angen i'r ymgeiswyr fod yn gyfforddus i greu cynnyrch digidol fel fideos, recordio neu ysgrifennu blogs, 'instatakeover', neu ddeunydd eraill all ddenu sylw myfyrwyr, darpar fyfyrwyr a phobl ifanc.
- Dylid hefyd fod â dealltwriaeth o'r amryw o wahanol gyrsiau sydd ar gael yn rhannol Gymraeg mewn prifysgolion yng Nghymru.
- Bydd gofyn i'r llysgenhadon wneud defnydd helaeth o'r cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo gwaith y Coleg, gan ddilyn y tudalennau i gyd a rhannu cynnwys sy'n berthnasol i chi.
- Rhannu'r cyfleoedd cyfrwng Cymraeg ar eich cwrs, a rhannu'r cyfleoedd i chi gymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg gyda ni! E.e digwyddiadau gyda'r undebau myfyrwyr, timau chwaraeon, corau etc.
- Hyrwyddo'r cyfleoedd a'r profiadau sydd ar gael i chi fel myfyriwr yma yng Nghymru, gyda darpar fyfyrwyr.

**Cyflawni Tasgau**

Yn ogystal â dysgu ac ymgyfarwyddo â gwaith a rôl y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, yn enwedig y cynllun Ysgoloriaethau a'r chwilotodd cyrsiau **byddwn yn disgwyl i chi rannu eich profiadau o addysg Gymraeg ac astudio yng Nghymru! Rhaid i bawb gyflawni'r canlynol dros y flwyddyn:**

- Mynychu cwrs hyfforddiant yn ystod mis Ionawr/Chwefror
- Llunio atebion i'n holiadur i'w allu rhoi ar y cyfryngau cymdeithasol
- Rhannu cynnwys y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ar y cyfryngau cymdeithasol – Instagram, Facebook, X, Tiktok yn RHEOLAIDD, drwy gydol eich cyfnod fel llysgennad
- Llunio oleuaf 2 flog ar gais y Coleg neu trwy syniadau eich hun, yn ystod eich blwyddyn fel llysgennad
- Ymateb i geisiadau e-bost/galwadau ffôn/WhatsApp gan y Coleg o fewn 48 awr
- Prydlondeb cyflwyno tasgau ar gais y Coleg
- Bod yn barod i fod yn rhan o ddigwyddiadau marchnata'r Coleg Cymraeg megis Eisteddfodau, Ffeiriau UCAS, Ymweliadau Ysgolion, Tafwyl a llawer mwy.
- Cyfle i fod yn ran o bodlediad newydd y Coleg Cymraeg
- Cyfrannu at unrhyw dasgau/cyfleoedd eraill all godi dros y flwyddyn

Bydd cyflawni'r tasgau amrywiol uchod yn datblygu nifer o brofiadau gwerthfawr e.e. datblygu sgiliau cyfathrebu a chyflwyno yn y Gymraeg, blogio, datblygu sgiliau yn y cyfryngau cymdeithasol, ymarfer sgiliau ysgrifennu yn y Gymraeg.

## 3. Cyfryngau Cymdeithasol, Blogio a chreu cynnwys

Mae'r Coleg yn rhannu blogs, cynnwys fideo ac amryw o wahanol gynnwys eraill boed yn ysgrifenedig, wedi ei greu neu ei olygu gan lysgenhadon ar ein cyfryngau cymdeithasol. I ddechrau, byddwn yn rhannu cyflwyniad a phroffil o'r llysgenhadon newydd ar gyfer 2024 ar ein cyfryngau.

Os oes gyda chi unrhyw syniadau am gynnwys yr hoffech chi ei greu mae croeso mawr i chi rannu eich syniadau gyda Mabon Dafydd sydd yn cydlynu'r cynllun llysgenhadon. Mae hefyd croeso i chi ofyn ar unrhyw bryd am gymorth neu arweiniad ar gyfer gwahanol gynnwys.

Rydym yn eich annog i gadw fyny gyda'r trends byd-eang amrywiol sydd ar y cyfryngau, ac mae croeso i chi gyflwyno syniadau am memes y gallwch ei rannu sydd yn berthnasol i fywyd myfyriwr yng Nghymru.

**Pwrpas y cynnwys:** Rhoi blas a throsolwg o fywyd myfyriwr Cymraeg mewn prifysgol wrth astudio a chymdeithasu - ac annog darpar fyfyrwyr i astudio rhan o'u cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg. Dylent roi darlun cadarnhaol o astudio a chymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg yn y brifysgol mewn ffordd **ysgafn a naturiol.** Y chweched dosbarth, myfyrwyr a phobl ifanc ydy'r gynulleidfa darged.

# Pwyntiau Pwysig!

### Cynulleidfa

Byddwch yn chi'ch hunain, gan gadw mewn cof bob amser pa mor briodol yw'r cynnwys ar gyfer darpar fyfyrwyr. Cofiwch pwy yw eich cynulleidfa wrth ichi ysgrifennu – mae croeso i chi ysgrifennu/siarad mewn modd anffurfiol a defnyddiwch eich tafodiaith naturiol.

### Cydbwysedd

Cofiwch fod angen cydbwysedd rhwng astudio a chymdeithasu yn eich cynnwys!

### Cadw eich hun yn ddiogel

Peidiwch â phostio gwybodaeth ynghylch ble rydych chi'n byw, rhif eich ystafell, ffôn symudol, ac ati! Byddwch yn gall!

Os oes rhywun sy'n dilyn eich blog yn gwneud i chi deimlo'n anghyfforddus a / neu yn gwneud sylwadau amhriodol cofiwch gysylltu gyda ni.

### Testun

Gofal! Nid ydym am weld cynnwys sy'n sarhaus, yn cynrychioli neu'n goddef torri'r gyfraith neu fel arall mewn perygl o ddod â'r Coleg i anfri. Nid yw hyn yn faes lle mae modd gosod allan rheolau pendant i'w dilyn - rydym yn dibynnu ar eich synnwyr cyffredin, uniondeb a barn. Bydd cynnwys amhriodol, wrth gwrs, yn cael ei ddileu a'r Coleg yn cael sgwrs gyda'r unigolyn hynny.

Ni ddylid ysgrifennu mwy na 500 gair mewn 1 blog.  Cadwch eich brawddegau a'ch paragraffau yn fyr – dim mwy na 3 neu 4 llinell ym mhob un.

### Lluniau a fideos

**Hoffem i bawb greu neu fod yn rhan mewn o leiaf 1 gynnwys fideo yn ystod y flwyddyn.**

Ceisiwch lwytho lluniau a fideos hyd yn oed os ydych yn ysgrifennu blog er mwyn osgoi gormod o destun ysgrifenedig. Gallwch dorri darn ysgrifenedig i fyny gyda llun/iau addas.

Wrth greu fideo, ceisiwch gadw'r cynnwys yn gryno, gan fod fideos byr a bachog yn dueddol o ddenu mwy o sylw. Byddwn yn awgrymu dim mwy na 1 munud.

Byddem yn eich cynghori i beidio defnyddio cerddoriaeth yn eich blog er mwyn osgoi materion hawlfraint. Heblaw ei fod yn gerddoriaeth generig/cefndirol oddi ar yr ap yr ydych yn creu'r cynnwys.

Byddwch yn ofalus i beidio postio lluniau / fideos unigolion na fyddai'n dymuno cael eu gweld.

Mae syniadau ar gynnwys fideo i'w gweld isod yn y pecyn yma.

**Talu sylw at sylwadau (neu ddiffyg)**

Os byddwch yn canfod bod pobl yn hoffi eich blog, fyddwch yn gwybod eich bod ar y trywydd iawn! Anogwch eich teulu a ffrindiau i ymateb i'ch blog. Darllenwch neu gwyliwch gynnwys y llysgenhadon eraill a'i hoffi/rhannu.

**Instagram / Facebook / X**

Cofiwch hoffi a rhannu'r holl ddeunydd perthnasol i chi gan y Coleg! Mi fydd Mabon yn eich annog i wneud hyn drwy gydol y flwyddyn fel llysgennad.

**Tiktok**

Eleni rydym yn bwriadu rhoi'r cyfle i 2 lysgennad brwdfrydig fod yn gyfrifol am gynnwys myfyrwyr ar tiktok y Coleg Cymraeg. Byddwn yn chwilio am gynnwys i ddenu sylw pobl ifanc ar y cyfrwng, gan greu fideos a memes hwyliog a chadw fyny gyda'r 'trends' diweddaraf er mwyn denu mwy o ddilynwyr a sicrhau ymgysylltiad cryf.

Yn eich cais, mae croeso i chi ddatgan eich bod yn awyddus i fod yn gyfrifol am Tiktok y Coleg Cymraeg, a pam mai chi fyddai'r ymgeisydd delfrydol ar gyfer y rôl yma.

**Cywirdeb Iaith**

Ceisiwch wirio eich Cymraeg cyn creu cynnwys gan ddefnyddio Cysill/CysGair os yw'n ysgrifenedig. Neu mae croeso i chi gysylltu gyda ni am unrhyw gymorth.
**Cofiwch hefyd ddefnyddio eich iaith naturiol chi!!**

**Pynciau i greu cynnwys amdanynt**

- Unrhyw ddigwyddiadau o fewn eich Undeb Myfyrwyr Cymraeg, e.e Trip rygbi, Dawns/Steddfod Rhyngol, cymdeithasu ar noson allan mewn sosial
- Byw mewn Neuadd cyfrwng Cymraeg/Tŷ
- Blas o'ch cwrs/darlith/seminar/tiwtorial trwy'r Gymraeg
- Ymweliad Ysgol
- Diwrnodau agored eich Prifysgol/adran
- Lleoliadau/Profiad gwaith (os yn berthnasol i'r cwrs)
- Tystysgrif Sgiliau Iaith
- Digwyddiadau cangen y brifysgol

Cofiwch ei bod hi'n bwysig eich bod yn rhannu eich profiadau personol chi o fod yn fyfyriwr yng Nghymru a bod modd i chi greu unrhyw gynnwys arall sydd yn berthnasol i fywyd myfyriwr. Cofiwch godi eich syniadau gyda ni, neu chwilio ar ein cyfryngau cymdeithasol am ysbrydoliaeth.

Byddwn yn cadw golwg ar eich cynnwys ac yn gallu rhoi adborth ichi os oes angen. Byddwn yn ymatal rhag talu os nad yw'r blogiau yn cael eu cyflawni, ac at safon briodol.

**Pa mor aml i greu cynnwys?**

Byddwn mewn cyswllt cyson gyda chi ar bryd fydd angen cynnwys arnom drwy gydol y flwyddyn, ond mae croeso i chi gysylltu gyda syniadau unrhyw bryd.

# 4. Monitro rôl / Cymorth gan y Coleg

Er mwyn sicrhau fod llysgenhadon yn cyflawni eu dyletswyddau ac at safon ddisgwyliedig bydd y coleg yn monitro eich gwasanaethau.

Byddwn yn monitro eich bod yn cyflawni'r tasgau sy'n ofynnol ac os nad ydyn ni'n hapus gydag ymrwymiad y llysgennad ac yn methu cyflawni'r dyletswyddau yn ddigonol neu yn profi i fod yn anghyfrifol mewn unrhyw fodd o ran cynnwys ar-lein, ar Flog y Coleg neu drwy bostio yn enw'r Coleg neu eu bod yn cynrychioli eu hunain mewn ffordd nad yw'n adlewyrchu budd gorau a / neu gymeriad y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (CCC). Byddwn yn cadw'r hawl i ddod â'r cytundeb i derfyn yn ddisymwth, a heb gyfnod rhybudd.

**Prif Gyswllt**

Eich prif gyswllt yn ystod y flwyddyn ydy Mabon Dafydd. Mae modd cysylltu gydag ef drwy e-bost, tecst, ffonio neu drwy WhatsApp. Cewch ddanfon unrhyw syniadau neu gynnwys yr hoffech chi i'w rannu ar ein tudalennau cymdeithasol ato.



E-bost: m.dafydd@colegcymraeg.ac.uk

Rhif Ffôn symudol gwaith: 07891 544363

Rydym ar gael i roi cymorth i chi wrth i chi greu cynnwys i ni, felly cofiwch gysylltu gyda ni. Gan amlaf, disgwyliwch ateb rhwng 9-5 ar ddyddiau Llun-Gwener, byddwn yn ymateb i'ch cais cgaph. Os ydych yn cael trafferth gydag unrhyw beth mae'n bwysig eich bod yn rhoi gwybod i ni.

## 5. Digwyddiadau a dyddiadau pwysig

**Holiaduron (I'w gadarnhau)**

**Cwrs hyfforddiant (I'w gadarnhau)**

Byddwn yn trefnu cwrs hyfforddiant yn ystod mis Chwefror. Bydd yr hyfforddiant yn gyfle i chi ddod i adnabod eich gilydd, mewn awyrgylch gymdeithasol. Mae'r cwrs hyfforddiant yn un gorfodol ar gyfer ein llysgenhadon, ac mae disgwyl i chi fynychu heblaw bod gennych chi reswm dilys. (Mwy o fanylion i'w ddilyn)

**Eisteddfod Yr Urdd Maldwyn 2024: Mai 27 – Mehefin 1**

**Eisteddfod Genedlaethol: 3-10 Awst**

**Tafwyl: (Dyddiad i'w gadarnhau)**

Bydd cyfle i chi fod yn rhan o'r criw staffio ar stondin y Coleg yn y digwyddiadau yma. Gyda hefyd cyfle i fynd o amgylch y maes yn creu cynnwys a pob mathau o gyfleoedd newydd a chyffrous eraill.

**Digwyddiadau Eraill**

Byddwn yn cysylltu gyda chi yn uniongyrchol i roi gwybod i chi am ddigwyddiadau neu ddyddiadau arall megis ymweliadau ysgolion, ffeiriau UCAS etc. Fel rhan o'ch rôl, mae disgwyl i chi fod yn barod i gymryd rhan yn yr amryw ddigwyddiadau yma os yw argaeledd a 'logistics' yn cadarnhau hynny.

**Tynnu llun**

Fel rhan o broses hyrwyddo llysgenhadon y Coleg, Rhaid i ni dderbyn llun ohonoch yn syth ar ôl i chi dderbyn hwdi neu grys-t y Coleg Cymraeg!

**Gwisg**

Bydd hwdi a chrys-t y Coleg Cymraeg yn cael ei ddanfon atoch, a disgwylir i chi wisgo un o'r rhain mewn unrhyw ddigwyddiad sy'n ymwneud â'r Coleg. Sicrhewch eich bod yn gofalu amdanynt.

## 6. Costau

Ar gyfer digwyddiadau lle fydd gofyn i chi deithio iddynt trwy fath o drafnidiaeth e.e car, bws, trên. Bydd Mabon yn darparu ffurflen costau teithio i chi ei lenwi a'i ddychwelyd ato.

Bydd y ffurflen yn gofyn i chi lenwi'r manylion yma i mewn:

- Dyddiad y daith
- Manylion o le i le e.e. (Cyfeiriad Prifysgol i Ysgol ... )
- Bwriad y daith, ac amseroedd dechrau a dychwelyd e.e. ymweliad ysgol, Dechrau: 12:00, Dychwelyd 15:30.
- Nifer y milltiroedd (os yn teithio mewn car), dylid rhoi costau bws neu drên yng ngholofn C.

Telir cynhaliaeth resymol yn unol â'r rheoliadau. Fe fydd rhaid anfon derbynebau gyda'r cais. Byddwch yn cael eich talu yn fisol am eich costau cynhaliaeth a theithio.

# 7. Cyhoeddusrwydd a Lluniau

**Cymryd rhan mewn cyfweliadau:**

Os ydych yn cael cynnig cyfweliad gan y cyfryngau am eich rôl fel llysgennad neu unrhyw beth sy'n berthnasol â'r brifysgol neu eich astudiaethau, cofiwch roi gwybod i'r Coleg am y cyfweliad o flaenllaw.

Mae'n hanfodol ein bod yn gwybod am unrhyw gyfweliadau, gan y bydd hyn yn gyfle i ni hysbysebu eich cyfweliad ar ein gwefan ac ar y cyfryngau cymdeithasol. Bydd hefyd yn gymorth i ni wrth fonitro unrhyw sylw gaiff y Coleg. Gallwn hefyd roi cyngor ar gynnwys y cyfweliad os oes angen.

Ym mhob cyfweliad sy'n sôn am eich rôl fel llysgennad, dylech sicrhau eich bod yn cael eich cyflwyno fel **'Llysgennad y Coleg Cymraeg Cenedlaethol'** a hefyd ceisiwch gyfeirio at y Coleg cymaint â phosibl yn ystod y cyfweliad.

Os yw'r Coleg yn cysylltu yn gofyn i chi gymryd rhan mewn cyfweliad, mae'n holl bwysig eich bod yn ymateb i'r cais ar e-bost neu ffôn **cyn gynted â phosib** er mwyn hwyluso'r trefniadau.

Os oes gwybodaeth neu erthygl yn eich papurau bro lleol neu unrhyw gyfrwng am eich rôl fel llysgenhadon, a wnewch chi gysylltu â'r Coleg i nodi hynny i ni wirio fod y wybodaeth yn gywir, ac hefyd gyrrwch lun o'r stori i ni allu rhannu ar y cyfryngau cymdeithasol.

**Safon Lluniau**

Gwnewch yn siŵr eich bod yn danfon lluniau o'r ansawdd uchaf posib atom er mwyn postio ar y cyfryngau cymdeithasol neu'r wefan. Nid yw lluniau ansawdd isel neu 'screenshot' yn edrych yn dda o ran delwedd.

---

Rydw i wedi darllen y ddogfen hon yn fanwl ac yn deall gofynion y tasgau ar gyfer fy rôl fel Llysgennad ar gyfer y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Llofnod:______________________________ Dyddiad:________________